# Arolwg 20mya Ar-lein i Aelwydydd

## Crynodeb

Diben yr holiadur oedd gofyn am adborth gan aelwydydd sydd ar ffyrdd a strydoedd lle’r oedd cyfyngiadau cyflymder 20mya wedi eu cyflwyno er mwyn dysgu mwy am eu heffaith.

Derbyniodd 9,426 o aelwydydd wahoddiad drwy’r post i gymryd rhan ar-lein, neu os oedd angen cymorth, drwy ymweld â Chanolfan Sir y Fflint yn Cysylltu ym Mwcle.

Llenwyd yr holiadur, a fu’n agored rhwng dydd Iau, 24 Tachwedd 2022, a dydd Sul, 18 Rhagfyr 2022, gan 2,712 o aelwydydd, ac mae crynodeb o’r canfyddiadau isod.

## Eich Ffordd / Stryd

Nod rhan gyntaf yr holiadur oedd deall yr hyn oedd pobl yn ei feddwl am gyflwyno cyfyngiadau 20mya ar y ffordd / stryd lle’r oeddynt yn byw.




Ymatebodd 2,699 o aelwydydd i’r cwestiwn hwn, a dywedodd 1,083 ohonynt eu bod yn cefnogi eu cyflwyno ar eu ffordd / stryd.

Yna, gofynnwyd i’r rhai a atebodd yn gadarnhaol:

**Dywedwch wrthym pam ydych chi'n cefnog** Dywedwch wrthym pam nad ydych yn cefnogi terfyn cyflymder 20mya ar eich ffordd / stryd? [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]



Gofynnwyd i'r rhai a atebodd yn negyddol:

Dywedwch wrthym pam nad ydych yn cefnogi terfyn cyflymder 20mya ar eich ffordd / stryd? [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]



## Ffyrdd / strydoedd eraill ym Mwcle a’r ardaloedd cyfagos

Nod ail ran yr holiadur oedd deall yr hyn oedd aelwydydd yn ei deimlo am gyflwyno cyfyngiadau 20mya ar ffyrdd / strydoedd eraill (nid y ffordd / stryd lle’r oeddynt yn byw).

Ydych chi’n cefnogi cyflwyno terfynau cyflymder 20mya ar ffyrdd / strydoedd eraill ym Mwcle a’r ardaloedd cyfagos? *




Ymatebodd 2,685 o aelwydydd i’r cwestiwn hwn, a dywedodd 474 ohonynt eu bod yn cefnogi eu cyflwyno ar ffyrdd / strydoedd eraill, lle nad oeddynt yn byw.

Yna, gofynnwyd i’r rhai a atebodd yn gadarnhaol eu bod yn gefnogol:

## Dywedwch wrthym pam ydych chi'n cefnogi terfyn cyflymder 20mya ar ffyrdd / strydoedd eraill? [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]



I’r rheiny a ymatebodd yn negyddol – nid oeddynt yn cefnogi eu cyflwyno ar ffyrdd a strydoedd eraill – aeth yr holiadur ymlaen i ofyn y ddau gwestiwn canlynol:

Ar ba fathau o ffyrdd / strydoedd nad ydych chi’n cefnogi terfynau cyflymder 20mya?



A Dywedwch wrthym pam nad ydych yn cefnogi terfyn cyflymder 20mya ar ffyrdd / strydoedd eraill? [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]

